# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 5ED HYDREF 2016 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd K. V. Reynolds – Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), D. Havard (Addysg a Dysgu Gydol Oes), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151) a C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Gorfforaethol - Cymunedau ).

Hefyd yn Bresennol:

J. Elias (Rheolwraig Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol), R. Thurlbeck (Pennaeth Gwasanaethau Synhwyraidd a Chyfathrebu - CBS Torfaen), D. Whetter (Pennaeth Adfywio Dros Dro), C. Jones (Pennaeth Perfformiad a Gwasanaethau Eiddo) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU DIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 21AIN MEDI, 2016

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Medi 2016 (rhifau cofnod. 1- 6) i'w cymeradwyo a'u llofnodi eu bod yn gofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

## 4. CYNNIG AR GYFER DATBLYGU GWASANAETH SYNHWYRAIDD A CHYFATHREBU CYFUNOL SY'N CYNNWYS Y GWASANAETH NAM AR Y GOLWG, Y GWASANAETH NAM AR Y CLYW A'R TÎM YMYRRAETH CYFATHREBU

Rhoddodd yr adroddiad fanylion cynnig i'r Cabinet ar gyfer datblygu Gwasanaethau cyfunol Synhwyraidd a Chyfathrebu, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Nam ar y Golwg, y Gwasanaeth Nam ar y Clyw a'r Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu. Bydd y gwasanaeth yn cael ei leoli o dan un cyflogwr a strwythur llywodraethu, a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet i symud ymlaen gydag ymgynghoriad i drosglwyddo Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent, sydd o dan CBS Caerffili ar hyn o bryd, i CBS Torfaen. Ar hyn o bryd mae CBS Torfaen yn rheoli'r Gwasanaeth Nam ar y Clyw a'r Timau Ymyrraeth Cyfathrebu ar ran Rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Yn ogystal, nodwyd y byddai'r cynnig yn golygu trosglwyddo rhai aelodau o staff o CBS Caerffili i CBS Torfaen yn golygu bod angen ymgynghori priodol.

Nododd y Cabinet bydd, os rhoddir caniatâd i symud ymlaen, ymgynghoriad â staff a phartneriaid y Gwasanaeth Cyfathrebu Synhwyraidd yn cychwyn ar 6ed Hydref 2016 gyda'r cynnig bod yr holl weithwyr o CBS Caerffili sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu yn trosglwyddo eu cyflogaeth o CBS Torfaen o'r 1af Ebrill 2017.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y goblygiadau ariannol, gan gyfeirio'n benodol at y Termau ac Amodau Cyflogaeth ac os oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng Telerau ac Amodau CBS Torfaen a CBS Caerffili. Eglurodd y Swyddog bod cyngor yn cael ei geisio ar hyn o bryd gan AD gan nad yw'r Telerau a'r Amodau rhwng Awdurdodau yn cyfateb yn union, a allai gyflwyno rhai materion cydraddoldeb, fodd bynnag, nodwyd bod Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 yn disodli'r pryderon hyn. Yn ogystal, sicrhawyd yr Aelodau y byddai'r holl opsiynau yn cael eu harchwilio yn ystod yr ymarfer ymgynghori ac o fewn y Cynllun Busnes, a byddai manylion llawn yn cael eu darparu mewn adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi'r adroddiad;

(ii) y cynnig i ddechrau'r ymgynghoriad ar y symudiad arfaethedig o'r holl staff Gwasanaeth Cyfathrebu a Synhwyraidd wedi eu lleoli yn CBS Caerffili i CBS Torfaen mewn cysylltiad â'r cynnig i greu Gwasanaeth Cyfathrebu a Synhwyraidd i gael eu cytuno;

(iii) adroddiad pellach i'w gyflwyno yn y flwyddyn newydd ar ganlyniad yr ymgynghoriad, ynghyd ag Achos Busnes Amlinellol llawn mewn perthynas â'r cynigion i greu gwasanaeth cyfunol.

## 5. CRONFA FENTHYCIADAU AR GYFER CANOL TREFI LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad i Aelodau ar y cynnydd a'r heriau a wynebir mewn perthynas â chyflwyno'r Gronfa Benthyciadau Canol Tref Llywodraeth Cymru £0.5 miliwn ar gyfer Canol Tref Rhymni.

Ym mis Chwefror 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru fenter newydd, wedi'i gyfyngu i drefi wedi'u lleoli o fewn ardaloedd Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, yn cynnig benthyciadau tymor hir i Awdurdodau Lleol i ddarparu cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau adfywio allweddol. Ym mis Hydref 2015 cymeradwyodd y Cabinet dderbyn £500,000 gan Gronfa Benthyciadau Canol Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer canol tref Rhymni, yn dilyn cais llwyddianus am gyllid gan Dîm Adnewyddu Trefol y Cyngor. Mae'r benthyciadau LlC "di-log" ar gael i Awdurdodau Lleol am uchafswm o 15 mlynedd, gyda benthyciadau yn cael eu hailgylchu bob pum mlynedd tan y dyddiad ad-dalu a bennir yn 2031.

Er gwaethaf ymdrechion i symud prosiectau ymlaen cafwyd ychydig iawn o gyfleoedd i ddefnyddio ac ailgylchu arian y benthyciad o fewn Rhymni ac mae awdurdodau lleol eraill hefyd wedi profi diffyg diddordeb yn y cynllun benthyca. O ganlyniad, mae LlC wedi cadarnhau y gellir ehangu'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi i gynnwys dau ganol tref ychwanegol (yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan LlC).

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ymdrechion a wnaed i lansio Cronfa Benthyciadau Canol Tref ar gyfer Rhymni, ac yn cymryd i ystyriaeth amodau'r LlC sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi, lefel y cyllid sydd ar gael, ffynonellau ariannu amgen posibl a'r cyfleoedd o fewn pob canol tref ar gyfer ail-fuddsoddi'r arian Cronfa Benthyciadau Canol Trefi, dros gyfnod o 15 mlynedd. Argymhellodd yr adroddiad yr ystyrir, ynghyd â Rhymni, mai'r Coed Duon a Rhisga sydd yn y sefyllfa orau i fod yn ganolbwynt y Cyngor ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Canol Trefi estynedig.

Yn ogystal, nododd y Cabinet y cyfle diweddar a gyflwynwyd gan LlC ar gyfer yr holl Awdurdodau yng Nghymru i wneud cais am gyfran o ddyraniad ychwanegol o £10 miliwn o dan ei "Chynllun Ariannu Ad-daladwy ar Gyfer Canol Trefi 2016/17" a thynnodd sylw at y ffaith bod uwch swyddogion wedi penderfynu ni ddylid cymryd y cyfle yn sgîl yr heriau a wynebwyd hyd yma yn defnyddio'r dyraniad cyfredol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) yn ogystal â chanol tref Rhymni, dylai canol trefi Coed Duon a Rhisga fod yn ganolbwynt gweithgaredd y Cyngor mewn perthynas â Chronfa Benthyciadau Canol Trefi LlC;

(iii) cytunir bod swyddogion i edrych ar y dewisiadau a gyflwynwyd drwy weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu prosiectau posibl ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Canol Trefi;

(iv) ni ddylid cymryd y cyfle i wneud cais ar gyfer arian ychwanegol o'r "Cynllun Ariannu Ad-daladwy ar Gyfer Canol Trefi 2016/17" ond dylid nodi ymdrechion amgen i ganolbwyntio ar y dyraniad presennol a'i ehangu i ddau ganol tref ychwanegol (yn amodol ar gytundeb gyda 9.2 uchod).

**ARGYMHELLION I'R CYNGOR**

**6. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16**

Mae'r adroddiad yn darparu Hunanasesiad Blynyddol yr Awdurdod a elwir yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer 2015/16 i'r Cabinet ac yn gofyn am farn a chymeradwyaeth y Cabinet, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 11eg Hydref 2016.

Nododd y Cabinet fod yr Adroddiad Perfformiad yn ofyniad statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn rhan bwysig o Fframwaith Perfformiad y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor i asesu ei berfformiad ei hun a darparu darlun cytbwys o'i berfformiad i'r cyhoedd.

Dangosodd yr adroddiad sut perfformiodd y Cyngor yn erbyn yr Amcanion Gwella a osododd iddo'i hun ar gyfer 2015/16.

Yn ogystal, nodwyd y byddai'r Amcanion Gwella ar gyfer 2016/17 yn cael eu galw'n Amcanion Lles, fodd bynnag, gan fod yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod 2015/16, mae'r term Amcanion Gwella wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion cysondeb ac archwilio.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad cadarnhaol a'r gwaith rhagorol a wnaed ar draws yr Awdurdod yn y broses o baratoi'r adroddiad ac am waith y Swyddogion. Er bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn, nododd y meysydd ar gyfer gwella.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> ARGYMHELLWYD i'r Cyngor am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog y dylid derbyn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.30pm

Cymeradwywyd a Llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Hydref, 2016.

________________________

CADEIRYDD